

# Gweddi'r Arglwydd wedi'i haddasu ar gyfer plant


www.lambsongs.co.nz Jill Kemp Cyf. Susan Williams Lluniau: Richard Gunther



Gweddïo ydy siarad gyda Duw. Byddai Iesu'n gweddïo ar Dduw ei dad oedd yn y nefoedd o hyd ac o hyd.




Dysgodd Iesu ei ffrindiau i weddïo fel hyn, "Ein Tad yn y nefoedd…




mae dy enw di'n bwysicach nag unrhyw enw arall ar y ddaear ac yn y nefoedd.



Gwna'r byd hwn yn le heddychlon ble gall pobl dy garu di Dduw a gwneud yr hyn sy'n dda ac yn gywir, yn union fel ag y mae hi yn y nefoedd.



Heddiw rho i ni'r bwyd y mae'n cyrff ni ei angen a chadw ni rhag gael ein brifo.



Maddau i ni a helpa ni i faddau i eraill, hyd yn oed os ydyn nhw'n gas gyda ni.



Atgoffa ni i wneud y dewisiadau gorau a'r hyn rydan ni'n gwybod sy'n iawn



oherwydd ti ydy Brenin y bydysawd a thi sy'n rheoli'r holl fyd. Rwyt ti'n Dduw mawr, gwych. Amen.